Grantiau natur gwerth £300,000 i gymunedau



Bysedd gwyrdd ac wynebau hapus yng Nghanolfan Datblygu Cymunedol De Glan yr Afon

Bydd pump o gymunedau mwyaf difreintiedig Cymru yn gwneud y gorau o fyd natur ar stepen eu drws diolch i grantiau ‘Lleoedd Lleol ar gyfer Natur - Chwalu Rhwystrau’.

Mae cyllid o bron i £300,000 yn cael ei ddarparu gan y rhaglen gan Lywodraeth Cymru a Chronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol.

> Rydyn ni wedi cael ein calonogi’n fawr gan yr ymateb i'r cyllid Chwalu Rhwystrau"
>
> *Julie James, y Gweinidog dros Newid Hinsawdd*

Wedi'i lansio ym mis Gorffennaf, cynigiodd Lleoedd Lleol ar gyfer Natur - Chwalu Rhwystrau grantiau i grwpiau gan gynnwys cymunedau du a lleiafrifoedd ethnig, ffoaduriaid, Sipsiwn, Roma a Theithwyr gysylltu â natur.

Roedd cymunedau yn y 30% uchaf o Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru hefyd yn gymwys i gael cyllid.



Gardd drefol yn ardal Maendy yng Nghasnewydd

Ymateb calonogol i Chwalu Rhwystrau

Dywedodd Julie James MS, y Gweinidog dros Newid Hinsawdd: “Rydym wedi ein calonogi’n fawr gan yr ymateb i’r cyllid Chwalu Rhwystrau a ddarparwyd gennym i ehangu cyfranogiad ac ymgysylltiad yn ein rhaglen Lleoedd Natur Lleol.

“Hoffwn longyfarch pawb sy’n ymwneud â’r prosiectau llwyddiannus, mae yna dipyn o waith hynod ddiddorol i’w wneud yma rwy’n edrych ymlaen at ddysgu mwy amdano wrth i bethau fynd yn eu blaenau.”

Y prosiectau llwyddianus

Dyma enwau y prosiectau sydd yn derbyn cyfran o'r cyllido £288,639 gan y cynllun Lleoedd Lleol ar gyfer Natur - Chwalu Rhwystrau:

- **Travelling Back to Nature** sydd yn cael ei arwain gan y Romani Cultural & Arts Company yn ne ddwyrain Cymru, £78,137
- **Greening Riverside** sydd yn cael ei arwain gan South Riverside Community Centre, Caerdydd, £81,202
- **Greening Maindee Together** o dan arweiniad Maindee Unlimited and the Community House Eton Road, Casnewydd, £39,300
- **Connecting People to Nature** a reolir gan Llanelli Multicultural Network, £30,000
- **Green Connect Project** sydd yn cael ei arwain gan Women Connect First, Caerdydd, £60,000

Mae’r rhaglen grant yn rhan o gynllun Lleoedd Lleol ar gyfer Natur Llywodraeth Cymru sydd wedi ymrwymo i greu, adfer a gwella natur ‘ar garreg eich drws’.



Cloddio'r tyweirch ym Maendy

Treulio amser gyda natur

“Ni fu erioed yn bwysicach gofalu am natur, helpu pobl i’w ddeall, treulio amser ynddo a gwerthfawrogi ei bwysigrwydd”, meddai Andrew White, Cyfarwyddwr Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yng Nghymru.

“Dyna pam roeddem ni wrth ein boddau o fod yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i gyflwyno’r rhaglen grant Lleoedd Lleol i Natur - Chwalu Rhwystrau i helpu i ailgysylltu pobl o gymunedau lleiafrifol a difreintiedig â’r byd naturiol.

“Mae'r rhaglen wedi anelu at ymgysylltu ag ystod ehangach o bobl â natur a bydd hefyd yn ein helpu i gael gwell dealltwriaeth o'r rhwystrau sy'n eu hwynebu i ymgysylltu â natur a nodi atebion posibl."